

Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Rhagfyr 2023

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein [calendr i ddod](#).

Cynnwys

Adroddiad Llesiant Cymru	3
Yr economi a'r farchnad lafur	3
Yr Economi	3
Tablau Mewnbwn-Allbwn	3
Y Farchnad lafur	3
Addysg	4
Ysgolion	4
Data ar bresenoldeb mewn ysgolion	4
Addysg Ôl-16	5
Addysg uwch a chyllid myfyrwyr	5
Tai	6
Ail Gartrefi	6
Cyflwr Tai a Thlodi Tanwydd	7
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	7
Iechyd y boblogaeth	7
Gofal sylfaenol a chymunedol	7
Ystadegau ysbytai	8
Gweithlu a gwariant y GIG	8
Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	8
Arolwg Cenedlaethol Cymru	8
Cyhoeddiadau	8
Cyfiawnder cymdeithasol	9

Tlodi	9
Costau byw	9
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)	9
Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin	10
Diogelwch cymunedol	10
Cydraddoldeb	10
Masnach.....	11
Arolwg Masnach Cymru	11
Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru	11
Trafnidiaeth	12
Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd	12
Amaethyddiaeth a'r amgylchedd	13
Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd	13
Arolwg Mehefin o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth	14
Ymchwil data gweinyddol	14
Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru	15
Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau	15
Pwnc-benodol	15
Twitter/X.....	15
Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru	15
Ymholiadau gweinyddol	15

Adroddiad Llesiant Cymru

Cyhoeddwyd [adroddiad](#) blynyddol Llesiant Cymru ar 28 Medi. Mae [adroddiad Llesiant Cymru](#) yn rhoi diweddariad ar b'un a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol a bennwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth eang o bynciau, yn cwmpasu'r 50 o [ddangosyddion](#) cenedlaethol, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddata perthnasol eraill.

Eleni, gwnaethom baratoi [adroddiad](#) ar wahân ar ethnigrwydd a llesiant yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar y dangosyddion cenedlaethol wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd lle y bo modd. Mae hwn yn rhoi mwy o fanylder a dyfnder nag sy'n bosibl yn y prif adroddiad ar Llesiant Cymru ac mae'n helpu i olrhain cynnydd tuag at ddod yn Gymru sy'n fwy cyfartal.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.prosiectaublaenoriaethuchel@llyw.cymru

Yr economi a'r farchnad lafur

Yr Economi

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad [dangosyddion allbynnau tymor-byr](#) o fis Ebrill i fis Mehefin 2023. Rydym hefyd wedi parhau i ddiweddarau [Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd rhynqweithiol](#).

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

Tablau Mewnbwn-Allbwn

Y tablau mewnbwn-allbwn oedd y brif thema ar gyfer cyfarfod diweddaraf Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economi Cymru, a gynhaliwyd ar 26 Medi. Mae'r cofnodion a'r cyflwyniadau o'r sesiwn ar gael [yma](#).

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch inputoutputtables@llyw.cymru.

Y Farchnad lafur

Ym mis Medi, parhawyd i gyhoeddi ein datganiad misol, [trosolwg o'r farchnad lafur](#), sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur. Ochr yn ochr â hyn cyhoeddwyd hefyd [Diweddariad y Prif Ystadegydd ar ddeall a rheoli effaith heriau gyda data'r farchnad lafur yng Nghymru](#).

Ym mis Hydref, oherwydd yr ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu, cyhoeddodd y SYG gyfres amgen o amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd fel ystadegau arbrolfod i'r DU. Rhoddodd hyn ddarlun mwy cyfannol o gyflwr y farchnad lafur tra bo amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu yn ansicr. Gan

nad oedd cyhoeddiad y SYG yn cynnwys data ar lefel Cymru, cafodd ein [datganiad misol o'r trosolwg o'r farchnad lafur](#) ar gyfer mis Hydref ei ganslo.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y SYG y gyfres amgen o amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd fel ystadegau arbrofol i wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon gwnaethom gyhoeddi [prif bennawd ystadegol yn rhoi crynodeb o'r prif ystadegau diweddaraf ynglŷn â'r farchnad lafur yng Nghymru](#).

[Mae'r SYG wedi amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i ateb heriau presennol yr Arolwg o'r Llafurlu yn ei chynllun gwella](#), gyda'r nod o ailgyflwyno amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu ym mis Rhagfyr 2023.

Yn ogystal â'r trosolwg misol o'r farchnad lafur, gwnaethom gyhoeddi'r diweddiariad blynyddol ar [Incwm aelwydydd crynswth i'w wario rhanbarthol](#) ar gyfer 2021 ym mis Medi sy'n rhoi gwybodaeth am faint o arian sydd gan unigolion mewn aelwydydd i'w wario neu i'w gynilo.

Roedd mis Hydref yn fis prysur gyda nifer o gyhoeddiadau mewn meysydd gwahanol. Gwnaethom gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar [ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2023](#) sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol. Cyhoeddwyd ystadegau blynyddol ar [gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur](#), ynghyd â'r bwletin ystadegol blynyddol ar [bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant](#).

Cafodd y data diweddaraf o'r [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion](#) hefyd eu cyhoeddi ym mis Hydref, yn rhoi gwybodaeth am enillion cyfartalog fesul awr, wythnos a blwyddyn ar gyfer 2023 a gwnaethom hefyd ddiweddarau ein datganiad ar [Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth](#) ar gyfer 2022, yn cyflwyno amcangyfrifon o gyflogaethion a chyflogaeth.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.yfarchnadlafur@llyw.cymru

Addysg

Ysgolion

Data ar bresenoldeb mewn ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data wythnosol ar [presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir](#) drwy gydol tymor yr hydref a chafwyd y cyhoeddiad cyntaf ar 21 Medi. Roedd y datganiad yn rhoi gwybodaeth wythnosol hyd at hanner tymor mis Hydref ac yna wybodaeth am y pythefnos hyd at y Nadolig.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi'r data cyntaf ers hydref 2019 o'r data presenoldeb blynyddol statudol a gesglir oddi wrth ysgolion uwchradd. Cyhoeddwyd y datganiad ar [Absenoldeb o ysgolion uwchradd; Medi 2022 i Awst 2023](#) ar 19 Hydref.

Datganiadau ystadegol

Cyhoeddwyd y datganiadau ystadegol canlynol hefyd ers mis Medi:

[Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2023](#) ar 19 Medi a oedd yn cynnwys data diwygiedig ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim

[Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2022 i Awst 2023](#) ar 20 Medi

[Cyflawniad academaidd disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3:Medi 2022 i Awst 2023](#) ar 20 Medi

[Canlyniadau arholiadau](#) dros dro ar 5 Hydref

[Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion](#) ar 9 Tachwedd

[Canlyniadau arholiadau](#) terfynol ar 7 Rhagfyr.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Addysg Ôl-16

Cyhoeddwyd y diweddariad chwarterol cyntaf o [ystadegau Twf Swyddi Cymru+](#) ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 ym mis Medi. Bu Hydref yn fis prysur. Cyhoeddwyd [ystadegau gwaith ieuenctid](#) ar gyfer 2022-23 a'r diweddariad blynyddol i'r mesur [cyrchfannau dysgwyr ôl-16](#), yn seiliedig ar ddysgwyr o flwyddyn academaidd 2020/21. Gwnaethom hefyd gyhoeddi erthygl ystadegol yn edrych ar [ddefnyddio hanes unigolion o ran prydau ysgol am ddim fel dangosydd amddifadedd mewn perthynas â deilliannau prentisiaethau a chyfleoedd dysgu oedolion](#).

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi'r diweddariad diweddaraf i'r [dangosfwrdd prentisiaethau a ddechreuwyd](#), a oedd yn cwmpasu chwarter 3 blwyddyn academaidd 2022/23 (mis Chwefror i fis Ebrill 2023).

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Cyhoeddwyd ein datganiad ar [yr iaith Gymraeg mewn addysg uwch](#) yn cwmpasu blwyddyn academaidd 2021/22.

Cyn hir, byddwn yn cyhoeddi ein datganiad blynyddol ar [Lwfansau Cynnal Addysg a ddyfarnwyd yng Nghymru](#), yn cwmpasu blwyddyn academaidd 2022/23.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwrch yddysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru.

Tai

Mae gwybodaeth reoli fisol ar [ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan](#) yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd, gydag oedi o ryw ddeufis. Ar ôl cael adborth defnyddwyr, ar gyfer data mis Hydref ymlaen byddwn yn cyhoeddi data ar nifer yr unigolion digartref mewn llety dros dro ar ddiwedd y mis, yn ôl awdurdod lleol a hefyd yn ôl math o lety. Bydd y newid hwn yn digwydd ym mis Ionawr 2024.

Ers y diweddariad diwethaf, mae'r allbynnau ystadegau tai rheolaidd canlynol wedi cael eu cyhoeddi:

- [Amcangyfrifon Stoc Annedd: ar 31 Mawrth 2022](#) (cyhoeddwyd 7 Medi)
- [Digartrefedd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#) (cyhoeddwyd 5 Medi)
- [Cymorth i Brynu – Cymru \(Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir\)](#): Ebrill i Fehefin 2023 a Gorffennaf i Fedi 2023 (cyhoeddwyd 14 Medi a 23 Tachwedd)
- [Dangosyddion llesiant cenedlaethol](#) (cyhoeddwyd 29 Medi)
- [Safon Ansawdd Tai Cymru: ar 31 Mawrth 2023](#) (cyhoeddwyd 19 Hydref)
- [Stoc tai landlordiaid cymdeithasol a rhenti: ar 31 Mawrth 2023](#) (cyhoeddwyd 24 Hydref)
- [Adeiladu tai newydd: Ebrill i Fehefin 2023](#) (cyhoeddwyd 26 Hydref)
- [Darpariaeth tai fforddiadwy: Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#) (cyhoeddwyd 7 Tachwedd)

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wrthi'n ailddatblygu ei [hystadegau ynglŷn â phrisiau rhenti tai preifat](#), y mae'n disgwyl iddynt gael eu defnyddio wrth fesur prisiau defnyddwyr o 2024. Ar 1 Rhagfyr, bydd yn cyhoeddi [dadansoddiad o effaith](#), ac ar ôl ei gyhoeddi bydd yn ymgysylltu â defnyddwyr.

Mae'r Gofrestrfa Tir a'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn parhau i gyhoeddi data misol [Mynegai Prisiau Tai y DU \(Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi\)](#) ar gyfer Cymru a gweddill y DU.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

Ail Gartrefi

Gwnaethom hefyd gyhoeddi gwybodaeth am nifer a chyfradd yr ail gartrefi y codir y dreth gyngor arnynt yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol o ddata biliau treth gyngor awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â mis Mawrth 2023 a gellir ei gweld ar wefan MapDataCymru:

- [Nifer yr ail gartrefi y codir y dreth gyngor arnynt yn ôl yr ardal allbwn ehangach haen ganol \(MSOA\), mis Mawrth 2023 | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#)

- [Nifer yr ail gartrefi am bob 1,000 o gartrefi y codir y dreth gyngor arnynt yn ôl yr ardal allbwn ehangach haen ganol \(MSOA\), mis Mawrth 2023 | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#)

Gellir gweld y data hefyd mewn tabl ceisiadau ystadegol ad hoc:

- [Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 25 Medi i 6 Hydref 2023: | LLYW. CYMRU](#)

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

Cyflwr Tai a Thlodi Tanwydd

Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cyhoeddi ei datganiad ystadegol chwarterol diweddaraf ar [Dystysgrifau Perfformiad Ynni Adeiladau ar gyfer Chwarter 3 \(Gorffennaf i Fedi\) 2023](#), sy'n cyflwyno gwybodaeth am dystysgrifau ar effeithlonrwydd ynni adeiladau yng Nghymru a Lloegr.

Ac mae'r SYG wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol blynyddol diweddaraf ar [Effeithlonrwydd ynni tai yng Nghymru a Lloegr: 2023](#).

Fel cangen, rydym wedi croesawu aelod newydd o staff i'r tîm a fydd yn gweithio ar Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 ac amcangyfrifon tlodi tanwydd.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Y chwarter hwn, gwnaethom ddiweddar [pennod Cymru Iachach](#) yn [adroddiad Llesiant Cymru](#), gan gynnwys [is-adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar ethnigrwydd \(PDF\)](#).

Iechyd y boblogaeth

Roedd y chwarter hwn yn cynnwys diweddariad ar yr [adroddiad blynyddol ar iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion](#) yn seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar a chyhoeddiad ad hoc ar [ddefnyddio e-sigaréts](#).

Gofal sylfaenol a chymunedol

Rydym yn parhau i ddiweddarau ac ychwanegu dealltwriaeth ychwanegol o lawer o'n hallbynnau, gan gynnwys y chwarter hwn sy'n diweddarau'r adroddiadau blynyddol ar [wasanaethau deintyddol y GIG](#) a [Phresgripsiynau yng Nghymru](#) sy'n cynnwys dadansoddiadau newydd a chipolwg nad oeddent ar gael yn flaenorol.

Cafwyd diweddariadau chwarterol ar [Raglen Plant Iach Cymru](#), [Bwydo ar y Fron](#) ac ystadegau'r [gweithlu ymarfer cyffredinol](#) hefyd.

Ystadegau ysbytai

Rydym yn parhau i wella ein diweddariadau misol ar [berfformiad a gweithgaredd y GIG](#) sy'n cynnwys data ar ofal heb ei drefnu a gofal a drefnwyd a'r chwarter hwn rydym wedi cyhoeddi diweddariad ar nifer [y gwelyau yn y GIG](#) ar lefel Cymru ac ar lefel Byrddau Iechyd Cymru.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ledled y DU i helpu defnyddwyr i ddeall cymariaethau o ystadegau perfformiad y GIG ledled y DU yn well ac yn ystod y chwarter hwn rydym wedi cyhoeddi'r blog newydd ar amseroedd ymateb ambiwlansys ynghyd â'n cydweithwyr yn y DU: [Summary of ambulance response time data in the UK](#).

Gweithlu a gwariant y GIG

Mae'r chwarter hwn wedi cynnwys diweddariad ar [ystadegau arbrofol ynglŷn â swyddi gwag yn y GIG](#), sydd bellach yn cynnwys swyddi gwag yn ôl bwrdd iechyd lleol yn ogystal â swyddi gwag ar lefel grŵp staff yn y GIG a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Cafwyd diweddariadau chwarterol hefyd ar y [staff a gyflogir gan y GIG](#) ac [absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG](#).

Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Yn y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau rheolaidd i amrywiaeth o ystadegau iechyd meddwl, gan gynnwys: [Nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl](#), [atgyfeiriadau ac amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl](#) ac [amseroedd aros am apwyntiad cyntaf gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasgoed arbenigol](#).

Yn ogystal, cafwyd amrywiaeth o ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: [mesurau gofal llygaid](#) a [gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu](#). Mae nifer o allbynnau eraill ar gael gan sefydliadau partner, gan gynnwys diweddariadau ar [gamddefnyddio sylweddau](#) (gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru) a [Goroesi Canser](#) (gan Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y [wefan Ystadegau ac ymchwil](#) ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn [ardal iechyd a gofal cymdeithasol StatsCymru](#).

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cyhoeddiadau

Yn dilyn y [Datganiad Cyntaf](#) o ganlyniadau 2022-23 ym mis Gorffennaf, rydym bellach wedi cyhoeddi'r bwletin ystadegol pwnc-benodol manwl cyntaf gan ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Cyhoeddwyd y ddau fwletin ym mis Tachwedd.

- Mae'r [bwletin ystadegol ar unigrwydd](#) yn archwilio lefelau unigrwydd ymhlith y boblogaeth, a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â gwahanol lefelau o unigrwydd.
- Mae'r [bwletin ystadegol ar wirfoddoli](#) yn cwmpasu pobl sydd wedi rhoi o'u hamser am ddim i glybiau neu sefydliadau, a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n gwirfoddoli.

Gwnaethom ddiwygio [Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 35](#), ac adroddiadau cysylltiedig [Llesiant Cymru](#) ac [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#), ar ôl darganfod gwall yn y ffordd roedd cyfranogiad yn y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth yn cael ei gyfrifo.

Gellir edrych ar y data drwy ddefnyddio [Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau](#)

Cysylltwch â ni yn arolygon@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Cyfiawnder cymdeithasol

Tlodi

Yn ystod y gwanwyn gwnaethom gyhoeddi crynodebau o ddata i Gymru ar [dlodi incwm cymharol](#), [amddifadedd materol](#) a [tlodi parhaus](#). Mae'r data diweddaraf yn yr adroddiadau hyn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.

Costau byw

Rydym yn parhau i gyhoeddi diweddariadau misol ar ddata StatsCymru ar [Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed o'r Gronfa Cymorth Dewisol \(DAF\)](#), ac yn rhoi diweddariadau ar y [dangosfwrdd rhyngweithiol sy'n cyflwyno amcangyfrifon tlodi tanwydd a data cysylltiedig](#) ar gyfer Cymru. [Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn blog](#) a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2022. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Rydym newydd gyhoeddi ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r MALIC nesaf ar ddiwedd 2025 neu ar ddechrau 2026, a byddwn yn cadarnhau hyn pan fo'n bosibl. Darllenwch ein [blog am ragor o gefndir ar amseru ar y mynegai nesaf, a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar a'r newid mewn ffiniau ardal fach](#).

Gwnaethom gyhoeddi bwletin yn ddiweddar yn ystyried y tebygolrwydd o grwpiau amrywiol o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC 2019. Mae'r dadansoddiad hwn yn nodi ble y bydd pobl o grwpiau amrywiol, fel y'u cofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021, yn fwyaf tebygol o fyw o ran amddifadedd cymharol ardal fach (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) ac a yw hyn yn amrywio rhwng grwpiau. Mae'r grwpiau o'r

boblogaeth a ystyriwyd yn cynnwys grwpiau oedran, anabledd a statws iechyd, grŵp ethnig, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol a nodweddion gwarchoddedig eraill. Gellir gweld y bwletin hwn drwy'r ddolen isod.

[Dadansoddiad o nodweddion poblogaeth yn ôl amddifadedd ardal \(Cyfrifiad 2021\) | LLYW. CYMRU](#)

Yn ystod yr hydref hwn, gwnaethom hefyd ddiweddarau ein ffeil chwilio o god post i AGEHI, awdurdod lleol a safle MALIC. Mae hon ar gael ar [StatsCymru](#).

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru i danysgrifio.

Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin

Rydym yn parhau i weithio gyda'r SYG, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Mae'r [ystadegau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisâu, nifer y fisâu a roddir a nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU sydd â noddwyr yng Nghymru \(yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau\)](#) yn parhau i gael eu diweddarau.

Diogelwch cymunedol

Cyhoeddwyd [Ystadegau achosion tân ac achub: Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#) ar 26 Hydref.

Cyhoeddwyd [Tanau Glaswelltir Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#) ar 30 Tachwedd.

Os ydych yn defnyddio'r ystadegau tân a hoffech gyfrannu unrhyw adborth, cysylltwch ag ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

Trosedd a Chyfiawnder

Gellir gweld ein dangosfwrdd rhyngweithiol ar Gyfiawnder leuenctid [yma](#). Os oes gennych unrhyw adborth am y dangosfwrdd hwn neu awgrymiadau am ddangosfyrddau i'r dyfodol, cysylltwch â ni ar ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

Cydraddoldeb

Ar 15 Tachwedd 2023 gwnaethom gyhoeddi:

- Y [datganiad ystadegol ar Gyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr](#) ar gyfer Gorffennaf 2023
- [amcangyfrifon ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol](#) wedi'u diweddarau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023, o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Gellir gweld y rhain ar wefan StatsCymru (ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol)

Cafodd y data diweddaraf o'r [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion](#) eu cyhoeddi ym mis Hydref hefyd, gan roi gwybodaeth am enillion cyfartalog fesul awr, wythnos a blwyddyn ar gyfer 2023 a hefyd wahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru a'r DU.

Cyhoeddwyd y data diweddaraf ar [wahaniaethau mewn cyflog ar sail anabledd ac ethnigrwydd yng Nghymru ym mis Mehefin o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#), ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022. Cyflwynir yr wybodaeth hon hefyd yn Nangosydd Cenedlaethol 17: Gwahaniaeth mewn cyflog ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.

Cysylltwch ag ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru mewn perthynas â'r datganiadau uchod.

Mae data o Gyfrifiad 2021 wrthi'n cael eu dadansoddi ymhellach a'u cyhoeddi.

Yn benodol, bwriedir cyhoeddi'r bwletin ystadegol ar [Ganlyniadau pobl anabl mewn ieuchyd, tai, addysg a statws economaidd \(Cyfrifiad 2021\)](#) ar 6 Rhagfyr 2023. Bwriedir cyhoeddi allbynnau pellach yn canolbwyntio ar hunaniaeth rywiol a chyflogaeth pobl anabl ar ddechrau 2024.

Anfonwch e-bost at YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw adborth.

Masnach

Arolwg Masnach Cymru

Cyhoeddwyd dadansoddiad o Bedwerydd Arolwg Masnach Cymru, blwyddyn gyfeirio 2021, [ym mis Hydref](#). Cyflwynwyd prosesau priodoli newydd i wella'r amcangyfrifon o werthiannau fel rhan o'r fethodoleg a ddiwygiodd yr ôl-gyfres o amcangyfrifon o werthiannau hyd at 2018.

Bydd y pumed Arolwg Masnach sy'n casglu data 2022 yn y maes o fis Hydref i fis Rhagfyr 2023. Bydd y fethodoleg briodoli yn cael ei hehangu i gwmpasu amcangyfrifon o bryniannau. Disgwylir y bydd data 2022 yn barod i'w cyhoeddi erbyn yr haf 2024.

Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau [Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru](#) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023 ar 14 Medi 2023.

Ochr yn ochr â'r prif ganlyniad uchod, caiff y [dangosfwrdd masnach rhyngweithiol](#) ei ddiweddarau yn unol â data'r chwarter diwethaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddarau'r dangosfwrdd, gan ymgorffori symiau o ddata a chyflwyno gwelliannau hygyrchedd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: ystadegau.masnach@llyw.cymru

Trafnidiaeth

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi [amcangyfrifon 2022 o draffig ffyrdd yng Nghymru](#).

I roi adborth ac i wneud sylwadau, cysylltwch ag ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Bydd yr arolwg yn casglu data ar agweddau ac ymddygiad teithio gan bobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd yn cynnwys holiadur arolwg a dyddiadur teithio. Bydd yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yn cynrychioli pobl Cymru ac yn hygyrch iddynt ac yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd y data a gesglir yn ein galluogi i olrhain y cynnydd tuag at dargedau a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net. Bydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac yn gwella'r sylfaen tystiolaeth trafnidiaeth yng Nghymru, gan ein galluogi i ddeall anghenion ein defnyddwyr yn well.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i ddarparu cymorth gyda dylunio a datblygu arolygon. Disgwylir y bydd y profion yn dechrau yn ystod hydref 2023, a bydd y gwaith o gasglu data llawn yn dechrau yn 2024.

Os hoffech ddysgu mwy am Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, e-bostiwch arolwgteithio@trc.cymru.

Y Gymraeg

Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd

Yn ein barn ni, y cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut mae Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd tuag at wireddu ei huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, rydym wedi bod yn [gweithio'n agos gyda'r SYG ar raglen waith](#) a fydd yn ystyried ymhellach rai o'r gwahaniaethau a welwyd gennym rhwng y cyfrifiad a rhai o'n ffynonellau data eraill ar y Gymraeg, megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Er enghraifft, amcangyfrifodd y cyfrifiad fod nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2011 a 2021, ond mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif bod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr un cyfnod.

Ar 26 Hydref, gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau cychwynnol ymchwil a oedd yn adolygu [gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 a'r Arolwg o'r Llafurlu](#), y mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn seiliedig arno. Dyma allbwn cyntaf

ein cynllun gwaith ar y cyd â'r SYG i wella ein dealltwriaeth o ystadegau ar y Gymraeg. Hwn hefyd oedd y cyhoeddiad cyntaf i ddefnyddio'r [Gwasanaeth Data Integredig](#), sef y llwyfan trawslywodraethol newydd a arweinir gan y SYG sy'n rhoi mynediad at amrywiaeth eang o ddata diogel o ansawdd uchel.

Arolwg Defnydd Iaith 2019 i 2020

Cynhaliwyd [Arolwg Defnydd Iaith 2019-2020](#) fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru i gael gwybod pa mor aml, ble, pryd a gyda phwy y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg, ac i wybod mwy am eu sgiliau yn yr iaith.

Ar 14 Medi, gwnaethom gyhoeddi bwletin ystadegol sy'n adrodd ar y [defnydd o'r Gymraeg ac agweddau tuag at yr iaith yn y gweithle](#).

Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi [canfyddiadau cychwynnol ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru](#) a chrynodebau pwnc ar y [defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac ym myd addysg](#) a [Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg](#). Bydd y bwletin ystadegol nesaf, a'r un olaf yn y gyfres, yn archwilio'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cafodd y [data diweddaraf ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#) eu cyhoeddi ar 5 Hydref.

E-bostiwch dataiaithgymraeg@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur adroddiad ar ran Llywodraeth Cymru a oedd yn cwmpasu [ôl troed ac effeithiau amgylcheddol byd-eang defnydd Cymru](#). Mae hwn yn amcangyfrif "the total area of productive land and water ecosystems required to produce the resources that the population consumes and assimilate the waste that it produces, wherever on Earth that land and water may be located." Mae hyn yn wahanol i [ddata Allyriadau Defnydd](#) a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr defnydd Cymru.

Tipio Anghyfreithlon

Cyhoeddwyd y data diweddaraf ar [Dipio anghyfreithion a gofnodwyd gan awdurdodau lleol](#) ar 16 Tachwedd.

E-bostiwch stats.environment@gov.wales am ragor o wybodaeth.

Arolwg Mehefin o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg 2023 ar 23 Tachwedd. Mae hwn yn rhoi'r amcangyfrifon diweddaraf o ddefnydd tir, nifer y da byw a gweithwyr ar ffermydd yng Nghymru.

E-bostiwrch ystadegau.amaeth@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

Ymchwil data gweinyddol

Mae'r gwaith o gyflawni [Strategaeth](#) Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) Cymru a'n [Rhaglen Waith Arfaethedig ar gyfer 2022-2026](#) yn mynd rhagddo. Mae [rhestr o brosiectau](#) ar gyfer pob un o'n themâu ymchwil bellach wedi cael ei chyhoeddi ar [wefan newydd Ymchwil Data Gweinyddol Cymru](#).

Cafodd tîm Ymchwil Data Gweinyddol Cymru bresenoldeb cryf yng [Nghynhadledd ADR UK](#) ar 14-16 Tachwedd yn Birmingham, lle y cynhaliodd nifer o weithdai a chyflwyniadau ynglŷn â'n [prosiect Casgliad Ymchwil Amaethyddol Data Gweinyddol](#), [Prosiect Cyswllt Data Cynllun Setliad yr UE](#), [prosiectau Tai a Digartrefedd](#), a llawer mwy. Dylai recordiadau o rai sesiynau fod ar gael ar wefan y gynhadledd cyn hir.

Mae Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru, wedi [achredu Ymchwil Data Gweinyddol Cymru am ei waith i helpu Cymru i ddod yn arweinydd rhyngwladol ar arferion gorau ym maes rhannu data a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth](#). Roedd y Gweinidog yn siarad yn seminar Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru, 'Supporting evidence-based decision making for Community Safety' ac yn cyfeirio at y ddealltwriaeth y gallai data, o gael eu casglu'n ddiogel, eu storio a'u dadansoddi, roi cymorth i atal troseddau.

Roedd yn bleser gan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru helpu'r SYG i ddatblygu [Gwasanaeth Data Integredig](#) trawslywodraethol newydd (sy'n dwyn ynghyd ddata sy'n barod i'w defnyddio er mwyn galluogi gwaith dadansoddi cydweithredol cyflymach ac ehangach er budd y cyhoedd). Fel y nodir yn yr adran ar y Gymraeg uchod, ar 26 Hydref gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau cychwynnol ymchwil a oedd yn adolygu [gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 a'r Arolwg o'r Llafurlu](#). Dyma'r allbwn cyhoeddedig cyntaf sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Data Integredig. Mae'r cyhoeddiad hefyd yn ffrwyth cynllun gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r SYG i wella'r ddealltwriaeth o ystadegau ar y Gymraeg. Nod y cynllun gwaith, yn rhannol, yw dangos manteision a gwerth y Gwasanaeth Data Integredig a [Chronfa Ddata SAIL](#).

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwrch YDGCymru@llyw.cymru.

Poblogaeth a demograffeg

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwrch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bostiwrch: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

Pwnc-benodol

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

Twitter/X

[YstadegauCymru](#)

Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

[Newyddion a hysbysiadau](#)

Ymholiadau gweinyddol

E-bost kasadmin@llyw.cymru